# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015

Amser: 09.01 - 10.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3268

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Cenric Clement-Evans, Deisebydd |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 205KB) Gweld fel HTML (148KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau yng Nghymru

Datganodd Aelodau y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae Joyce Watson yn cefnogi'r ddeiseb, ac mae'n bosibl ei bod wedi'i llofnodi;
- Mae William Powell yn cefnogi'r ddeiseb; ac
- Mae Bethan Jenkins hefyd yn cefnogi'r ddeiseb ac wedi'i llofnodi ar wefan yr RSPCA.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddi:

- wneud sylwadau ar sylwadau pellach y deisebydd;
- am ragor o wybodaeth am yr adolygiad, gan gynnwys manylion ynghylch yr amserlen debygol, sut y bydd y gwaith yn cael ei wneud, a'r sefydliadau y byddwn yn cysylltu â hwy;
- gwneud sylwadau ar ba un a ellir defnyddio pwerau o dan adran 12 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i gyflwyno gwaharddiad, os yw tystiolaeth yr adolygiad annibynnol ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn awgrymu fod angen gwneud hynny; ac
- a yw'n credu fod angen deddfwriaeth sylfaenol.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.3.

### 3.2 P-04-466 Argyfwng Meddygol - Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.3.

### 3.3 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Datganodd William Powell y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Bu William Powell yn cwrdd â'r deisebwyr mewn perthynas â P-04-564 (Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog).

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y deisebau a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog, ar gais y deisebwyr ar gyfer deiseb P-04-564, ystyried adolygu'r materion a ganlyn:
    - y penderfyniadau a wnaeth BIPBC, mewn perthynas â materion sy'n peri pryder i'r deisebwyr, cyn iddo gael ei roi mewn mesurau arbennig i sicrhau nad yw'r materion systemig a ganfuwyd ers hynny yn y Bwrdd Iechyd wedi arwain at benderfyniadau diffygiol; a'r
    - cynlluniau gofal iechyd ar gyfer Ucheldiroedd Cymru gan gorff fel Cwmni Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru;
- ysgrifennu at y bwrdd iechyd i ddarparu manylion ynghylch canlyniadau'r gwaith o fonitro mynediad at wasanaethau mân anafiadau lleol yn Ucheldiroedd Cymru; ac
- ar gais y deisebwyr ar gyfer deiseb P-04-479 (Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn), gofyn i'r bwrdd iechyd sut y maent wedi mynd i'r afael ag argymhelliad y cyngor iechyd cymuned y dylai'r bwrdd iechyd gael strategaeth ar gyfer cael mynediad at wasanaeth mân anafiadau amgen y tu allan i oriau agor Ysbyty Tywyn.

### 3.4 P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd ar yr ohebiaeth gan y bwrdd iechyd.

### 3.5 P-04-603 Helpu Babanod 22 Wythnos Oed i Oroesi.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am sylwadau gan y deisebydd, gan dynnu ei sylw yn arbennig at y cynnig i rannu cynnwys drafft terfynol y ddogfen Mamolaeth a Newyddenedigol ar y cyd, sy'n rhoi arweiniad i weithwyr iechyd proffesiynol, cyn iddo fynd at y Grŵp Llywio Newyddenedigol ym mis Tachwedd; a
- gofyn am sicrwydd gan y prif swyddog meddygol y bydd hi'n gallu rhoi mewnbwn i'r drafft.

### 3.6 P-04-630 Rheoliadau Facebook ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- gau'r ddeiseb; ac
- wrth gau'r ddeiseb, sicrhau bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r ohebiaeth ddiweddaraf a gofyn ei bod yn cael ei hystyried.

### 3.7 P-04-540 Stopio rhagfarn ar sail rhyw mewn cam-drin domestig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau gan y deisebydd. Oni cheir ymateb gan y deisebydd cyn pen pedair wythnos, cytunwyd y dylid cau'r ddeiseb.

### 3.8 P-04-631 Achub ein Gwasanaeth - Achub Anifeiliaid Mawr yng Ngogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am sylwadau gan y deisebydd;
- ceisio ymateb gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a barn awdurdodau de Cymru a chanolbarth a gorllewin Cymru, yn ogystal ag anfon sylwadau'r RSPCA atynt; a
- sicrhau bod pob un ohonynt yn ymwybodol o farn yr RSPCA

### 3.9 P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- anfon yr ymatebion a gafwyd gan Plant yng Nghymru a Fforwm Ieuenctid Powys i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn gofyn am ei barn ac yn gofyn a yw'n fodlon ar y cynnydd sy'n cael ei wneud; a
- gofyn i Plant yng Nghymru ymateb i sylwadau'r deisebwyr.

### 3.10 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.11.

### 3.11 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- dynnu sylw'r Dirprwy Weinidog at ymateb Animal Aid a gofyn am ei sylwadau ar gynigion pellach y sefydliad o ran sut y gellid defnyddio a monitro lluniau teledu cylch cyfyng.
- gofyn i'r Dirprwy Weinidog am ei barn ynghylch a gaiff argymhelliad y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm, a'i datganiad ysgrifenedig, unrhyw effaith ar y mater o ladd heb stynio yn gyntaf, sydd ychydig yn wahanol.

## 4 Sesiwn Dystiolaeth - P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Atebodd Cenric Clement-Evans gwestiynau gan y Pwyllgor.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod tystiolaeth lafar o dan eitem 4 ar yr agenda

Trafododd yr Aelodau y sesiwn dystiolaeth, a chytunwyd y dylid aros am y sesiwn dystiolaeth lafar arfaethedig gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.